# Polisi i hwyluso ac annog defnydd mewnol o'r Gymraeg

## Paratowyd yn unol â gofyniad Safon 98

**Wedi'i gymeradwyo gan:** Cabinet

**Dyddiad cymeradwyo:** 28/04/26

**Dyddiad gweithredu:** 01/07/26

**Perchennog:**

**Dyddiad adolygu:** 01/07/27

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Polisi i hwyluso ac annog defnydd mewnol o'r Gymraeg

## Newidiadau i'r ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd i gadw i fyny â newidiadau mewn polisi neu ddeddfwriaeth. Gellir dod o hyd i'r fersiynau diweddaraf o'n cyhoeddiadau ar ein gwefan. Cyn cysylltu â ni ynglŷn â chynnwys y ddogfen hon, rydym yn argymell eich bod yn cyfeirio at y fersiwn ddiweddaraf ar y wefan ac unrhyw ganllawiau perthnasol.

| **Fersiwn** | **Dyddiad Cymeradwyo** | **Wedi'i gymeradwyo gan** | **Nodiadau / newidiadau** |
|---|---|---|---|
| 1.0 | 28/04/26 | Cabinet | Policy newydd |

# Polisi i hwyluso ac annog defnydd mewnol o’r Gymraeg

## Cynnwys


Rhan 1: Gweledigaeth a datganiad o fwriad 4

Ein hymrwymiad: 4**Error! Bookmark not defined.**

Rhan 2: Cefndir a chyd-destun polisi 5

Rhan 3: Gosod amcanion a chynllun gwaith 6

Rhan 4: Amcanion 7

Rhan 5: Gweithredu ac adolygu 12

Rhan 6: Cyfrifoldebau 12

Rhan 7: Mesuryddion 13

Atodiad 1: Cynllun Gweithredu 13

# Polisi i hwyluso ac annog defnydd mewnol o’r Gymraeg

## Rhan 1: Gweledigaeth a datganiad o fwriad

Mae’r polisi hwn yn ymateb i Safon 98 (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), sy’n gofyn i ni greu polisi ar ddefnyddio’r Gymraeg yn fewnol. Ei nod yw dangos ein hymrwymiad i gynyddu’r defnydd dyddiol o’r Gymraeg yn y gweithle, a chefnogi’r nod cenedlaethol o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

Rydym eisiau adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes wedi digwydd i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg. Byddwn yn rhoi’r strwythurau cywir yn eu lle i greu mwy o gyfleoedd i staff ddefnyddio’r Gymraeg, boed hynny mewn sefyllfaoedd ffurfiol neu anffurfiol.

Mae ein staff yn allweddol i hyn. Rydym am gynnig cyfleoedd a chefnogaeth i unrhyw un sydd eisiau defnyddio neu wella’u Cymraeg yn y gwaith. Trwy gynllunio gofalus a chamau cadarnhaol, gallwn helpu staff i feithrin sgiliau a hyder. Yn y pen draw, bydd hyn yn ein galluogi i fynd ymhellach na gofynion y safonau, a darparu gwasanaethau gwell yn Gymraeg i’r cyhoedd.

## Ein hymrwymiad:

Daw’r polisi hwn ag arferion, polisïau ac adnoddau ynghyd o ran hyfforddiant Cymraeg, Safonau’r Gymraeg a’n dull corfforaethol o ddefnyddio Cymraeg yn y gweithle. Drwy’r polisi hwn, byddwn yn gweithio tuag at fod yn sefydliad cynyddol ddwyieithog lle caiff y ddwy iaith eu gwerthfawrogi a’u defnyddio’n naturiol, yn ffurfiol ac yn anffurfiol.

Wrth weithredu’r polisi, byddwn yn glynu at ein hegwyddorion sefydliadol ac yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu unrhyw newidiadau gyda’n staff.

Beth mae hyn yn golygu i'n staff?

Byddwn yn gwneud y Gymraeg yn fwy amlwg yn fewnol ac yn ei gwneud yn opsiwn diofyn i staff. Bydd hyn yn helpu i gynyddu hyder ac yn annog mwy o bobl i ddysgu neu ddatblygu eu Cymraeg. Byddwn yn cefnogi staff yn eu gwaith ac yn cynnig cyfleoedd amrywiol i ddefnyddio’r Gymraeg, beth bynnag yw eu lefel. Trwy’r polisi hon, rydym am greu awyrgylch lle mae defnyddio’r Gymraeg bob dydd yn teimlo’n naturiol. Ein blaenoriaeth yw meithrin hyder a chefnogi ein staff.

# Polisi i hwyluso ac annog defnydd mewnol o'r Gymraeg

## Rhan 2: Cefndir a chyd-destun polisi

Ers 2015 rydym yn gweithredu safonau'r Gymraeg. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn y gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg.

Yn strategaeth Cymraeg 2050, mae Llywodraeth Cymru yn sôn am y gweithle fel gofod allweddol ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Dywedir bod y "gweithle'n ganolog i'n bywydau bob dydd ac yn bwysig o ran datblygiad ieithyddol unigolion", gan ei fod yn gyfle i siaradwyr ar bob lefel ddefnyddio ac ymarfer yr iaith. Yn ogystal â'r nod o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'r strategaeth eisiau gweld cynnydd yn y ganran o bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd. Mae'r gweithle yn ofod hanfodol i alluogi hyn i ddigwydd. Ymhellach, un o nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw sicrhau 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.' Rydym yn gwybod os ydy rhywun y defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith bob dydd, mae'r tebygolrwydd y byddant yn ei defnyddio y tu allan i'r gwaith yn cynyddu. Mae'n debyg fod pawb yn nabod rhywun sydd yn medru'r Gymraeg ond ddim yn ei defnyddio yn eu gwaith. Gall y rhesymau am hyn fod yn amrywiol a niferus ond ein gobaith trwy weithredu'r polisi hwn yw bod llwybrau a chyfleoedd i bob un wneud defnydd o'u Cymraeg. Bydd y polisi hwn yn ystyried cyfleoedd ffurfiol trwy hyfforddiant, defnydd o dechnoleg a chanllawiau, a hefyd cyfleoedd anffurfiol i sgwrsio ac ymwneud ag eraill y tu hwnt i sefyllfaoedd ffurfiol y gweithle.

Mewn arolwg staff diweddar gofynnwyd y cwestiwn " Mewn wythnos arferol faint wyt ti'n defnyddio'r Gymraeg":-

| Faint wyt ti'n defnyddio'r Gymraeg | **Canran (%)** |
|---|---|
| Byth | 47% |
| Unwaith yr wythnos | 16% |
| 2 neu 3 diwrnod yr wythnos | 14% |
| Bob diwrnod | 23% |

Gofynnwyd hefyd am farn ar yr datganiad yma – "Mae'r cyngor yn cefnogi ac yn annog defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle."

## Polisi i hwyluso ac annog defnydd mewnol o'r Gymraeg

| **Mae'r cyngor yn cefnogi ac yn annog defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.** | **Canran (%)** |
|---|---|
| Cytuno yn gryf neu'n cytuno | 85% |

Pwrpas y polisi hwn, felly, yw gosod cynllun clir ar gyfer hwyluso a chynyddu defnydd o'r Gymraeg yn ffurfiol ac yn anffurfiol o fewn ein sefydliad dros y 5 mlynedd nesaf fel bod y canran o'r staff sydd byth yn defnyddio'r Gymraeg yn lleihau a'r canran o staff sydd yn ei ddefnyddio bob diwrnod yn cynyddu.

## Rhan 3: Gosod amcanion a chynllun gwaith

Rydym wedi adnabod cynllun gwaith fydd yn galluogi i ni ddatblygu mewn ffordd uchelgeisiol ond realistig, gan ganiatáu amser i'n holl staff elwa o'r cyfleoedd datblygu rydym yn falch o'u cynnig. Mae dysgu iaith a newid arferion defnydd yn cymryd amser, ac rydym yn ymrwymo i gefnogi hynny i ddigwydd.

Bydd y gwaith wedi strwythuro dan y penawdau canlynol er mwyn sicrhau bod pob agwedd o fusnes y sefydliad wedi eu cynnwys:

**Arweinyddiaeth**: creu a chynnal yr amodau cywir trwy gydol y sefydliad.

**Magu hyder:** creu'r amodau i bawb deimlo'n hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddyn nhw.

**Seilwaith weinyddol:** sicrhau bod ein gweithdrefnau a phrosesau yn creu amgylchedd ble gall y Gymraeg ffynnu. Mae hyn yn cynnwys ein defnydd o dechnoleg, materion cyflogaeth a chyfieithu.

## Rhan 4: Amcanion

### Arweinyddiaeth

Ein nod yw creu awyrgylch yn y sefydliad sy'n cefnogi ac yn annog defnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys, ond yn mynd y tu hwnt i, arweinwyr yn dangos esiampl wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'n golygu sylfeini strwythurol sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn

cael ei hystyried ar bob lefel o weithrediad sefydliad, heb ei chyfyngu i siaradwyr Cymraeg neu swyddogion penodol.

## Arwain drwy esiampl:

I wneud hyn byddwn yn:

- Annog arweinwyr a rheolwyr ein sefydliad i ddefnyddio’r Gymraeg sydd ganddynt, ac i agor a chau cyfarfodydd, negeseuon a chyflwyniadau yn Gymraeg ar bob cyfle, gan ddarparu hyfforddiant i reolwyr ar ddefnyddio’r Gymraeg yn effeithiol
- Hyrwyddo agweddau cadarnhaol ac yn annog ein gweithlu i ymfalchïo yn y Gymraeg ac yn niwylliant Cymru, gan nodi’n ddiamod fod y Gymraeg yn sgil gwerthfawr o fewn y sefydliad
- Datblygu rhaglen i sicrhau bod pob aelod o staff allweddol wedi derbyn hyfforddiant 'Arwain mewn gwlad dwyieithog'
- Cynnal cynllun ‘Pencampwyr Iaith Gymraeg’ er mwyn sicrhau presenoldeb i’r Gymraeg ar draws y sefydliad

**Sicrhau atebolrwydd a strwythurau cadarn:** trwy sicrhau cydymffurfiaeth â’r Safonau a sicrhau bod y Gymraeg yn rhan o’n strwythurau adrodd mewnol, ein bwriad yw gosod statws clir i’r iaith a sail gadarn er mwyn hybu defnydd o’r Gymraeg.

Byddwn yn:

- Defnyddio Pwyllgor Llywio’r Gymraeg i arwain ar fonitro cynnydd ac i sicrhau atebolrwydd ar draws y sefydliad wrth weithredu’r polisi.
- Cefnogi ein Pencampwyr Iaith Gymraeg ym mhob adran i hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg yn fewnol a chefnogi'r gwaith o ran gweithredu Safonau’r Gymraeg
- Asesu a chofnodi sgiliau iaith Gymraeg ein staff yn drylwyr er mwyn llywio ein penderfyniadau wrth gynllunio’r gweithlu a gwneud datblygiadau polisi recriwtio

**Cyfathrebu mewnol:** er mwyn sicrhau bod pawb o fewn y sefydliad yn deall ein hymrwymiad i’r Gymraeg, a sut mae’n berthnasol i’w gwaith bob dydd byddwn yn:

# Polisi i hwyluso ac annog defnydd mewnol o'r Gymraeg

- Cynnal mewnrwyd ddwyieithog gyda gwybodaeth ac adnoddau ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn man hwylus i bawb eu cyrraedd
- Bydd ein holl gyfathrebu mewnol - cylchlythyron, bwletinau staff - yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf, yn ogystal â'n holl arwyddion, cyhoeddiadau a datganiadau
- Ac eithrio rhai amgylchiadau dilys (e.e. neges frys yn ymwneud ac iechyd a diogelwch bydd unrhyw ohebiaeth dorfol sydd wedi'i hanelu at bob un aelod o staff y Cyngor / grŵp o staff / gwasanaeth cyfan ac ati a anfonir drwy negeseuon e-bost / llythyrau / Newyddlenni yn cael eu hanfon yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd bob amser.

## Magu Hyder

Rydym yn cydnabod bod hyder pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn gallu amrywio yn ôl y sefyllfa. Efallai fod unigolion yn gyfforddus mewn cyd-destunau anffurfiol ond yn llai hyderus mewn sefyllfaoedd proffesiynol. Drwy gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd, byddwn yn helpu ein staff i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder, gan annog pawb i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddyn nhw.

Cefnogi defnydd: mae creu fframwaith i gefnogi ein gweithlu i ddefnyddio'u Cymraeg yn bwysig i ni. Mae hyn yn golygu y byddwn yn:

- Creu a chynnal bas data i ddangos pa lefel o Gymraeg sydd ei hangen ar gyfer pob rôl, a pha sgiliau sydd gan staff ar hyn o bryd, fel sail i gynllunio dysgu a hyfforddiant.
- Cynnal bas data o siaradwyr Cymraeg ar gyfer y sefydliad er mwyn hwyluso cyfathrebu mewnol ac annog staff i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd.
- Sicrhau mynediad at hyfforddiant Cymraeg i staff ar bob cam o'u siwrne dysgu a darparu hyfforddiant perthnasol a phwrpasol i gefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith e.e. i staff derbynfa neu sy'n ateb y ffôn
- Darparu adnoddau Iaith Gwaith i staff ddangos eu bod nhw'n barod i ddefnyddio'r Gymraeg

## Polisi i hwyluso ac annog defnydd mewnol o'r Gymraeg

**Cynyddu cyfleoedd:** mae creu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn hanfodol ar gyfer codi hyder yn y Gymraeg a phrif-ffrydio'r iaith o fewn ein sefydliad. I hwyluso hyn, byddwn yn:

- Cynnal rhaglen barhaus o hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff er mwyn cynyddu dealltwriaeth o rôl y Gymraeg o fewn eu gwaith ac yn ehangach
- Hyrwyddo cyfleoedd lleol i ddefnyddio'r Gymraeg e.e. Digwyddiadau'r Fenter Iaith leol ayyb yn ein cylchlythyr / ar y fewnrwyd / mewn bwletinau staff

**Dathlu llwyddiannau:** mae'n bwysig ein bod ni'n dathlu ymdrechion a llwyddiannau ein cydweithwyr sy'n datblygu eu defnydd o'r Gymraeg. I wneud hyn byddwn yn:

Dathlu llwyddiannau dysgwyr trwy ein cyfathrebu mewnol er mwyn cefnogi ein dysgwyr ac ysbrydoli eraill

- Tynnu sylw at unigolion neu dimoedd sy'n gwneud defnydd da a chynyddol o'r Gymraeg
- Cymryd rhan mewn ymgyrchoedd cenedlaethol neu leol sy'n dathlu'r defnydd o'r Gymraeg e.e. Defnyddia dy Gymraeg, Dydd Miwsig Cymru a.y.b.

### Codi Ymwybyddiaeth a Dangos Uchelgais:

- Rydym yn rhannu geirfa / brawddegau 'yr wythnos' a.y.b. ymysg staff trwy ein cylchlythyr / mewnrwyd / Teams
- Sicrhau bod datganiad 'hapus i gyfathrebu yn Gymraeg neu'n Saesneg' ar gael i bawb roi ar lofnodion e-bost
- Byddwn yn gosod targed fod gan bob aelod o staff Lefel 1 (ALTE) fel lleiafswm h.y. Ynganiad, croesawu a geirfa syml ayyb

## Seilwaith Weinyddol

Yn sail i'r holl waith bydd gweithdrefnau cadarn yn galluogi i'n staff ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith bob dydd. Bydd hyn yn golygu trefniadau clir o fewn materion cyflogaeth a

systemau technoleg sy'n cynnig y gefnogaeth orau i gydweithwyr ddefnyddio'r iaith yn effeithiol.

**Materion cyflogaeth**: mae safonau'r Gymraeg yn gosod disgwyliadau clir am ein trefniadau adnoddau dynol a'r hyn y gall ein staff ddisgwyl gennym yn Gymraeg. Mewn ymateb i hyn byddwn yn:

- Sicrhau bod ein gweithlu yn derbyn gwybodaeth am eu cyflogaeth yn Gymraeg os ydynt yn dymuno, gan gofnodi dewis iaith staff ar ein systemau, gan gynnig y Gymraeg yn rhagweithiol i'n staff
- Darparu polisïau a ffurflenni craidd yn Gymraeg yn unol â gofynion y safonau ac adnabod unrhyw ddogfennau cyflogaeth eraill sydd angen eu darparu yn Gymraeg
- Caniatáu staff i ddilyn ein prosesau cwyno yn Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny, yn unol â'r safonau, gan wneud hyn mor syml â phosib
- Darparu hyfforddiant anwytho i bob aelod o staff sy'n cynnwys sesiwn ar yr iaith Gymraeg a diwylliant, cydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg a ble i ddod o hyd i wybodaeth am e.e. y gwasanaeth gyfieithu a gwersi Cymraeg ar y fewnrwyd, pwy yw ei pencampwr iaith.

**Technoleg:** gall technoleg fod o gymorth mawr i'n defnydd o'r Gymraeg fel sefydliad. Rydym yn awyddus bod ein gweithlu yn cael mynediad at adnoddau fydd yn eu cynorthwyo i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith bob dydd.

Byddwn yn:

- Darparu cefndiroedd Microsoft Teams sy'n arddangos logo Cymraeg Gwaith ar gyfer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr a'u hyrwyddo i annog staff i'w ddefnyddio mewn cyfarfodydd ar-lein
- Creu a darparu canllawiau i staff ar ddefnyddio cyfieithu awtomatig / peirianyddol (Microsoft, Google) i hwyluso defnydd o'r Gymraeg - ni ddylai staff ddibynnu ar yr adnodd, ond mae modd ei ddefnyddio i gynorthwyo cyfathrebu yn fewnol yn Gymraeg. Dylai gael ei wirio bob amser gan siaradwr Cymraeg o fewn y gwasanaeth.

## Polisi i hwyluso ac annog defnydd mewnol o'r Gymraeg

- Bydd y cyfeirlyfr staff electronig yn cynnwys Bathodyn Cymraeg Gwaith er mwyn adnabod siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i sefydlu'r cyswllt cyntaf
- Cynnal mewnrwyd yn ddwyieithog gyda rhyngwyneb y mae modd newid o un iaith i'r llall yn ddidrafferth

**Prosesau cyfieithu:** mae ein gwasanaeth cyfieithu yn hanfodol i'n gallu i weithredu yn ddwyieithog. Byddwn yn cefnogi eu gwaith trwy sicrhau prosesau clir a threfnus o weithio. Byddwn yn:

- Defnyddio cyfieithu ar y pryd i hwyluso trafodaethau mewnol yn newis iaith staff
- Rhoi prosesau clir mewn lle ar gyfer gwaith cyfieithu yn cynnwys amserlenni ar gyfer gwaith cyfieithu a chyfarwyddiadau am beth sydd angen ar y cyfieithydd er mwyn cyfieithu'n effeithiol.
- Hyrwyddo drafftio trwy gyfrwng y Gymraeg o'r cychwyn ac yn creu canllawiau i gynorthwyo staff i wneud hynny.
- Rhoi siart llif cyfieithu ar y fewnrwyd i alluogi staff i wybod pa ddogfennau a chyhoeddiadau mae angen eu cyfieithu
- Creu a chynnal rhestr o eiriau allweddol fesul gwasanaeth i helpu'r cyfieithwyr sicrhau cysondeb o ran defnydd iaith Sir Ddinbych

## Rhan 5: Gweithredu ac adolygu

Mae'r uchod yn nodi ein hymrwymiadau i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg o fewn ein sefydliad. I gyd-fynd â'r ddogfen yma mae dogfen weithredu sy'n manylu ar dargedau, amserlen a chyfrifoldebau i roi'r ymrwymiadau ar waith.

Cynllun 5-mlynedd yw hon. Byddwn yn adolygu yn flynyddol ac yn gwerthuso perfformiad yn erbyn cyfres o fesuryddion a nodir yn y ddogfen weithredu.

## Rhan 6: Cyfrifoldebau

Bydd chyfrifoldeb terfynol dros y polisi hwn gyda Phwyllgor Llywio'r Gymraeg. Bydd y Pwyllgor yn cydweithio yn agos gyda Swyddog Iaith Gymraeg a' r Cyfarwyddwr

# Polisi i hwyluso ac annog defnydd mewnol o'r Gymraeg

Corfforaethol dros Lywodraethu a Busnes ac Aelod Arweiniol dros y Gymraeg, Treftadaeth a Diwylliant a Pennaeth Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol – Pobl.

## Rhan 7: Mesuryddion

Arolwg blynyddol staff ar ddefnydd dyddiol y Gymraeg a barn staff ar ydi'r cyngor yn cefnogi ac yn annog defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, holiadur sgiliau Cymraeg staff er mwyn cael data meintiol.

Grŵp ffocws gyda'r Pencampwyr Cymraeg, Swyddogion, gweithwyr y Cyngor ac Aelod Arweiniol dros y Gymraeg, Treftadaeth a Diwylliant  er mwyn casglu data ansoddol.

# Polisi i hwyluso ac annog defnydd mewnol o'r Gymraeg

## Atodiad 1: Cynllun Gweithredu

### ARWEINYDDIAETH: Arwain drwy esiampl

| Targed | Camau gweithredu | Cyfrifoldeb | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Gosod disgwyliad ar arweinwyr ein sefydliad i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddyn nhw mewn sefyllfaoedd cyhoeddus; wrth annerch cyfarfodydd ac yn ysgrifenedig | Trefnu hyfforddiant i'r swyddogion perthnasol<br>Creu a gosod canllaw ar y fewnrwyd yn cynnwys ynganiadau cyffredin | UDA<br>Swyddog Iaith Gymraeg | Tach 2025<br>Rhag 2025 |
| Hyrwyddo agweddau cadarnhaol ac yn annog ein gweithlu i ymfalchïo yn y Gymraeg ac yn niwylliant Cymru, gan nodi'n ddiamod fod y Gymraeg yn sgil gwerthfawr o fewn y sefydliad | Cynnal ymgyrchoedd mewnol rheolaidd sy'n dathlu'r Gymraeg a diwylliant Cymru, e.e. Dydd Miwsig Cymru, Diwrnod Shwmae, | Swyddog Iaith Gymraeg | Parhaus<br>Adolygu ar ddiwedd bob blwyddyn ac ar ddiwedd y cyfnod 5 mlynedd |
| Datblygu rhaglen i sicrhau bod pob aelod o staff allweddol wedi derbyn hyfforddiant 'Arwain mewn gwlad dwyieithog' | Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r rhaglen | UDA | Erbyn diwedd y cyfnod 5 mlynedd |
| Cynnal cynllun 'Pencampwyr' Iaith er mwyn sicrhau presenoldeb i'r Gymraeg ar draws y sefydliad | Pencampwyr Iaith i gyfarfod bob chwarter i drafod arfer dda, problemau a chynllunio ymgyrchoedd mewnol. | Swyddog Iaith Gymraeg | Parhaus |

### ARWEINYDDIAETH: Sicrhau atebolrwydd a strwythurau cadarn:

# Polisi i hwyluso ac annog defnydd mewnol o'r Gymraeg

| Targed | Camau gweithredu | Cyfrifoldeb | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Bydd Pwyllgor Llywio'r Gymraeg yn arwain ar y gwaith monitro'r Gymraeg ac yn helpu sicrhau atebolrwydd ar draws y sefydliad. | Ychwanegu monitro Polisi Mewnol y Gymraeg i'w raglen waith | Pwyllgor Llywio'r Gymraeg | Parhaus<br>Adolygu ar ddiwedd bob blwyddyn ac ar ddiwedd y cyfnod 5 mlynedd |
| Cefnogi ein Pencampwyr y Gymraeg ym mhob adran i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol a chefnogi'r gwaith o ran gweithredu Safonau'r Gymraeg | Pencampwyr Iaith i gyfarfod bob chwarter i drafod arfer dda, problemau a chynllunio ymgyrchoedd mewnol. | Pencampwyr Iaith Gymraeg + Swyddog Iaith Gymraeg | Parhaus |
| Asesu a chofnodi sgiliau iaith Gymraeg ein staff yn drylwyr er mwyn llywio ein penderfyniadau wrth gynllunio'r gweithlu a gwneud datblygiadau polisi recriwtio | Holiadur Sgiliau Iaith yn cael ei hanfon yn flynyddol i holl staff y Cyngor Sir<br>Cadw bas data o'r wybodaeth yma | AD + Swyddog Iaith | Erbyn Ebrill yn flynyddol |

# Polisi i hwyluso ac annog defnydd mewnol o’r Gymraeg

ARWEINYDDIAETH: Cyfathrebu mewnol

| Targed | Camau gweithredu | Cyfrifoldeb | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Cynnal mewnrwyd ddwyieithog gyda gwybodaeth ac adnoddau ar ddefnyddio’r Gymraeg mewn man hwylus i bawb eu cyrraedd | Sicrhau bod tudalen Cymraeg yn y Gweithle yn cael ei hadnewyddu yn gyson. | Swyddog Iaith<br>Tîm y wefan | Parhaus |
| Bydd ein holl gyfathrebu mewnol - cylchlythyron, bwletinau staff - yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf, yn ogystal â’n holl arwyddion, cyhoeddiadau a datganiadau | Parhau i anfon ein bwletin Heddiw yn Sir Ddinbych yn ddwyieithog.<br>Cynnal proses o adolygu ac addasu Arwyddion mewnol i ddefnyddio Cymraeg mwy clir. | Tîm Cyfathrebu<br>Tîm Cyfleusterau + Rheolwyr yr adeiladau | Parhaus<br>Erbyn Ebrill 2026 |

# Polisi i hwyluso ac annog defnydd mewnol o'r Gymraeg

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ac eithrio rhai amgylchiadau dilys (e.e. neges frys yn ymwneud ag iechyd a diogelwch bydd unrhyw ohebiaeth dorfol sydd wedi'i hanelu at bob un aelod o staff y Cyngor / grŵp o staff / gwasanaeth cyfan ac ati a anfonir drwy negeseuon e-bost / llythyrau / Newyddlenni etc. yn cael eu hanfon yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd bob amser | Templedi o negeseuon ar gael ar y fewnrwyd.<br>Swyddog Iaith + Pencampwyr Iaith Gymraeg ar gael i gyfieithu negeseuon byr.<br>Creu canllawiau ar  ddefnyddio cyfieithu awtomatig / peirianyddol (Microsoft, Google) i gynorthwyo cyfathrebu yn fewnol yn Gymraeg<br>Wedi ychwanegu "Mailtip" i Outlook "Anfon at grŵp mawr yn fewnol? Cofiwch am y Gymraeg.<br>Sending to a large group within DCC?  Make sure your message is bilingual.<br>Er mwyn atgoffa staff | Swyddog Iaith Gymraeg<br>Swyddog Iaith + Pencampwyr Iaith Gymraeg<br>Swyddog Iaith i greu canllaw gyda arweiniad gan Comisiynydd y Gymraeg | Erbyn Rhagfyr 2025<br>Parhaus<br>Erbyn Mai 2026 |

### MAGU HYDER: Cefnogi defnydd

| Targed | Camau gweithredu | Cyfrifoldeb | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Creu bas data categoreiddio sgiliau iaith swyddi i ddangos pa lefel o Gymraeg sydd ei hangen ar gyfer pob rôl yn y Cyngor Sir, a pha sgiliau sydd gan staff ar hyn o bryd, fel sail i gynllunio dysgu a hyfforddiant. | Creu a chynnal Bas Data Sgiliau Cymraeg ar gyfer bob rôl yn y Cyngor Sir.<br>Defnyddio'r bas data yma a nodi'r disgwyliadau wrth hysbysebu | Swyddog Iaith a AD | Bas data cychwynol yn ei le erbyn Ionawr 2026<br>Parhaus |

## Polisi i hwyluso ac annog defnydd mewnol o'r Gymraeg

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynnal bas data o siaradwyr Cymraeg ar gyfer y sefydliad er mwyn hwyluso cyfathrebu mewnol ac annog staff i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd. | Cydweithio gyda TGCh i rhoi Teclyn Sgiliau Cymraeg ar Outlook fel bod neges yn ymddangos ar Outlook pan yn creu Negeseuon E-bost yn nodi bod y derbyniwr yn Siarad Cymraeg. | AD + Adran TGCh | Erbyn Gorffennaf 2026 |
| Sicrhau mynediad at hyfforddiant Cymraeg i staff ar bob cam o'u siwrne dysgu a darparu hyfforddiant perthnasol a phwrpasol i gefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith e.e. i staff derbynfa neu sy'n ateb y ffôn | Parhau i gynnig Cyrsiau Iaith Gwaith drwy Dysgu Cymraeg.<br>Cynnal Cyrsiau Gofal Cwsmer i staff rheng flaen | Dysgu Cymraeg + AD<br>Swyddog Iaith | Parhaus<br>Pob staff allweddol i dderbyn yr hyfforddiant erbyn Ebrill 2026 – cynnal yn flynyddol wedyn gan dargedu staff newydd |
| Darparu adnoddau Iaith Gwaith i staff ddangos eu bod nhw'n barod i ddefnyddio'r Gymraeg | Disgwyliad clir bod Siaradwyr Cymraeg yn gwisgo Cortynnau Gwddf Iaith gwaith ac annog dysgwyr i wisgo cortynnau gwddf dysgwyr.<br>Arwyddion clir mewn derbynfeydd bod croeso i ddefnyddio'r Gymraeg. | Swyddog Iaith Gymraeg + Pencampwyr Iaith | Parhaus |

# Polisi i hwyluso ac annog defnydd mewnol o’r Gymraeg

## MAGU HYDER: Cynyddu cyfleoedd

| Targed | Camau gweithredu | Cyfrifoldeb | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Cynnal rhaglen barhaus o hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff er mwyn cynyddu dealltwriaeth o rôl y Gymraeg o fewn eu gwaith ac yn ehangach | Creu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith<br>Cefnogi adrannau sydd wedi perfformio yn isel mewn ymarferion siopwr cudd i gyda hyfforddiant. Rheolwyr / Pennaeth Gwasanaeth i gwblhau taflen hunan asesiad blynyddol o berfformiad gwasanaeth o rhan y Gymraeg. | Swyddog Iaith Gymraeg + Rheolwyr / Pennaeth Gwasanaeth | Erbyn Ebrill 2026<br>Yn flynyddol |
| Hyrwyddo cyfleoedd lleol i ddefnyddio'r Gymraeg e.e. Digwyddiadau'r Fenter Iaith leol ayyb yn ein cylchlythyr / ar y fewnrwyd / mewn bwletinau staff | Cydweithio agos gyda Menter Iaith Sir Ddinbych i hyrwyddo eu digwyddiadau yn ein bwletin ac ar ein tudalen Facebook i staff. | Swyddog Iaith Gymraeg | Parhaus |
| Cynnal sesiynau sgwrsio / clwb clonc / paned a sgwrs gan gynnig y cyfle i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg mewn amgylchedd cefnogol, tu allan i sesiynau dysgu ffurfiol | Parhau i gynnal sesiynau Paned a Sgwrs, Taith a Sgwrs yn fisol | Swyddog Iaith Gymraeg | Parhaus |

# Polisi i hwyluso ac annog defnydd mewnol o'r Gymraeg

## MAGU HYDER: Dathlu llwyddiannau

| Targed | Camau gweithredu | Cyfrifoldeb | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Dathlu llwyddiannau dysgwyr trwy ein cyfathrebu mewnol er mwyn cefnogi ein dysgwyr ac ysbrydoli eraill | Tynnu sylw at lwyddiannau dysgwyr yn ein Bwletin Heddiw yn Sir Ddinbych a thudalen Facebook i staff.<br>Cwestiwn ag ateb gyda Dysgwyr sydd yn mynychu ein sesiynau Paned a Sgwrs. | Swyddog Iaith Gymraeg | Erbyn Ionawr 2025 a wedyn eitem bob 2 fis |
| Tynnu sylw at unigolion neu dimoedd sy'n gwneud defnydd da a chynyddol o'r Gymraeg | Creu templed Eitem 'Cyfarfod Adran' anfon i Bencampwyr Iaith Cymraeg a rhoi eitem bob 2 mis yn ein bwletin i staff - fformat cwestiwn ac ateb gyda chwestiynau ar y thema "Sut ydych chi wedi mynd ati i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg yn eich tîm. Cynnwys llun o'r tîm | Swyddog Iaith Gymraeg + Pencampwyr Iaith | Erbyn Ionawr 2025 a wedyn eitem bob 2 fis |
| Cymryd rhan mewn ymgyrchoedd cenedlaethol neu leol sy'n dathlu'r defnydd o'r Gymraeg e.e. Defnyddia dy Gymraeg, Dydd Miwsig Cymru a.y.b. | Creu fidio i ddathlu digwyddiadau.<br>Postio lluniau ar y Cyfryngau Cymdeithasol | Swyddog Iaith Gymraeg | Parhaus |

# Polisi i hwyluso ac annog defnydd mewnol o'r Gymraeg

## MAGU HYDER: Codi ymwybyddiaeth + Dangos uchelgais

| Targed | Camau gweithredu | Cyfrifoldeb | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Sicrhau bod datganiad 'hapus i gyfathrebu yn Gymraeg neu'n Saesneg' ar gael i bawb roi ar lofnodion e-bost | Brawddeg ar gael ar ein mewnrwyd – tudalen Cymraeg yn y gweithle | Tîm y We + Swyddog Iaith | Erbyn Rhagfyr 2025 |
| Rydym yn rhannu geirfa / brawddegau 'yr wythnos' ayyb ymysg staff trwy ein cylchlythyr / mewnrwyd / Teams | Parhau i rannu Gair yr Wythnos ar ein platfformau gwahanol - annog elfen o gystadleuaeth cymryd rhan gan ofyn i weithwyr rhoi'r gair mewn brawddeg | Tîm Cyfathrebu + Swyddog Iaith | Parhaus |
| Byddwn yn gosod targed fod gan bob aelod o staff Lefel 1 (ALTE) fel lleiafswm h.y. Ynganiad, croesawu a geirfa syml ayyb | Hybu ac annog Cyrsiau Croeso y Canolfan Dysgu Cymraeg<br>Rhoi cwestiwn ar ffurflen 1 i 1 yn gofyn i gweithwyr os ydynt eisiau unrhyw hyfforddiant Cymraeg. | Swyddog Iaith + Rheolwyr + AD | Adolygu ar ddiwedd y cyfnod 5 mlynedd |

# Polisi i hwyluso ac annog defnydd mewnol o’r Gymraeg

## Seilwaith Weinyddol: Materion cyflogaeth

| Targed | Camau gweithredu | Cyfrifoldeb | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Sicrhau bod ein gweithlu yn derbyn gwybodaeth am eu cyflogaeth yn Gymraeg os ydynt yn dymuno, gan gofnodi dewis iaith staff ar ein systemau, gan gynnig y Gymraeg yn rhagweithiol i’n staff | Mae hyn yn ei le. Monitro bod hyn yn hwylus ac yn digwydd | AD | Parhaus |
| Darparu polisïau a ffurflenni craidd yn Gymraeg yn unol â gofynion y safonau ac adnabod unrhyw ddogfennau cyflogaeth eraill sydd angen eu darparu yn Gymraeg | Mae hyn yn ei le. Monitro bod hyn yn hwylus ac yn digwydd | AD | Parhaus |
| Caniatáu staff i ddilyn ein prosesau cwyno yn Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny, yn unol â’r safonau, gan wneud hyn mor syml â phosib | Mae hyn yn ei le. Monitro bod hyn yn hwylus ac yn digwydd | AD | Parhaus |
| Darparu hyfforddiant anwytho i bob aelod o staff sy'n cynnwys sesiwn | Adnewyddu ein hyfforddiant i gynnwys elfen Cwis ar y diwedd.<br>Cynyddu % cwblhau y cwrs gan dargedu  Adran | AD + Swyddog Iaith | Erbyn Medi 2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ar yr iaith Gymraeg a diwylliant, cydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg a ble i ddod o hyd i wybodaeth am e.e. y wasanaeth gyfieithu a gwersi Cymraeg ar y fewnrwyd. | Addysg ar gychwyn blwyddyn ysgol gan bod ei lefelau cwblhau yn isel.<br>Mae Gwybodaeth ar y fewnrwyd am wersi Cymraeg ar broses cyfieithu. | | |

### Seilwaith Weinyddol: Technoleg

| Targed | Camau gweithredu | Cyfrifoldeb | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Darparu cefndiroedd Microsoft Teams sy'n arddangos logo Cymraeg Gwaith ar gyfer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr a’u hyrwyddo i annog staff i'w ddefnyddio mewn cyfarfodydd ar-lein | Mae hyn yn ei le.<br>Templed ar y fewnrwyd.<br>Atgoffa staff yn ein eitem Oeddech chi’n gwybod? yn ein bwletin Heddiw yn Sir Ddinbych | Swyddog Iaith Gymraeg | Erbyn Rhagfyr 2025 |

## Polisi i hwyluso ac annog defnydd mewnol o'r Gymraeg

| | | | |
|---|---|---|---|
| Creu a darparu canllawiau i staff ar ddefnyddio cyfieithu awtomatig / peirianyddol (Microsoft, Google) i hwyluso defnydd o'r Gymraeg - ni ddylai staff ddibynnu ar yr adnodd, ond mae modd ei ddefnyddio i gynorthwyo cyfathrebu yn fewnol yn Gymraeg. | Creu'r Canllawiau a'i hyrwyddo drwy'r pencampwyr iaith a Rheolwyr. | Swyddog Iaith Gymraeg gyda chefnogaeth ac arweiniad Comisiynydd y Gymraeg | Erbyn Mai 2026 |
| Bydd y cyfeirlyfr staff electronig yn cynnwys Bathodyn Cymraeg Gwaith er mwyn adnabod siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i sefydlu'r cyswllt cyntaf | Cysylltu gyda adran TGCh i weld sut allwn ni wneud hyn. | Swyddog Iaith Gymraeg + Adran TGCH | Erbyn Ebrill 2026 |
| Cynnal mewnrwyd yn ddwyieithog gyda rhyngwyneb y mae modd newid o un iaith i'r llall yn ddidrafferth | Mae hyn yn ei le | Tîm y We | Parhaus |

# Polisi i hwyluso ac annog defnydd mewnol o’r Gymraeg

## Seilwaith Weinyddol: Prosesau cyfieithu

| Targed | Camau gweithredu | Cyfrifoldeb | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Defnyddio cyfieithu ar y pryd i hwyluso trafodaethau mewnol yn newis iaith staff | Mae hyn yn ei le | Gwasanaethau Democrataidd | Parhaus |
| Rhoi prosesau clir mewn lle ar gyfer gwaith cyfieithu yn cynnwys amserlenni ar gyfer gwaith cyfieithu a chyfarwyddiadau am beth sydd angen ar y cyfieithydd er mwyn cyfieithu'n effeithiol | Mae hyn ar y fewnrwyd - cyswllt | Gwasanaethau Democrataidd | Parhaus |
| Hyrwyddo drafftio trwy gyfrwng y Gymraeg o'r cychwyn ac yn creu canllawiau i gynorthwyo staff i wneud hynny. | Aros am Ganllawiau'r Comisiynydd ar hwn. | Comisiynydd y Gymraeg + Swyddog Iaith Gymraeg | Erbyn Ebrill 2026 |
| Rhoi siart llif cyfieithu ar y fewnrwyd i alluogi staff i wybod pa ddogfennau a chyhoeddiadau mae angen eu cyfieithu | Creu’r canllaw a’r siart llif | Swyddog Iaith Gymraeg | Erbyn Ebrill 2026 |
| Creu a chynnal rhestr o eiriau allweddol fesul gwasanaeth i helpu’r cyfieithwyr sicrhau cysondeb o ran defnydd iaith Sir Ddinbych | Creu a chynnal rhestr o eiriau allweddol fesul gwasanaeth | Swyddog Iaith Gymraeg i gydlynu gyda Penaethiaid Gwasanaeth | Erbyn Ebrill 2026 |